# Rhaglen Cyflymydd Arweinyddiaeth 'Resilience'

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, mewn partneriaeth â'r Rhaglen ‘Resilience’, yn cynnal y Rhaglen ‘Resilience’ – Cyflymydd Arweinyddiaeth, sef menter ddatblygu sydd wedi'i thargedu i nodi a meithrin y genhedlaeth nesaf o arweinwyr yn y diwydiant gweithgynhyrchu meddyginiaethau.

Dan arweiniad Dr Tony Bradshaw (Biosocius Ltd), mae’r rhaglen yn cael ei chyflwyno fel rhan o ddau weithdy My Future Plan (MFP) dilyniannol, sy'n cyfuno gwaith proffilio seicometrig, myfyrdod personol, a datblygu sgiliau arwain cymhwysol.

Mae wyth lle ar gael ar gyfer y garfan yng Nghymru, a fydd yn sicrhau profiad personol iawn. Bydd y cyfranogwyr yn cael eu dewis drwy broses Datgan Diddordeb agored, ac yn cael eu hasesu yn erbyn meini prawf penodol. Bydd disgwyl i’r ymgeiswyr llwyddiannus weithredu mewn rôl lysgenhadol ar gyfer y sefydliadau partner a'r Rhaglen 'Resilience’ yn ehangach.

## Deilliannau'r Rhaglen

Dyma beth fydd cyfranogwyr y rhaglen yn ei ennill:

- Gwydnwch a pharodrwydd ar gyfer y gweithle
- Gwell hunanymwybyddiaeth o'ch sgiliau a’ch nodweddion ymddygiadol
- Dealltwriaeth o'r strategaethau gorau posibl o ran gyrfa
- Sgiliau allweddol i feithrin gwydnwch a deallusrwydd emosiynol

## Participant Eligibility

Rhaid i’r cyfranogwyr fodloni'r meini prawf cymhwysedd canlynol:

- Bod naill ai'n fyfyriwr PhD (cam olaf - blwyddyn olaf ond un neu’r flwyddyn olaf) yn ymchwilydd ôl-ddoethurol, yn gynorthwyydd ymchwil/arbenigwr technegol neu'n weithiwr proffesiynol ar ddechrau ei yrfa.
- Gweithio ym maes ymchwil yn y gadwyn gyflenwi gweithgynhyrchu meddyginiaethau, neu ddiddordeb mewn gwneud hynny yn y dyfodol.
- Gweithio mewn sefydliad yng Nghymru neu sefydliad sy'n ymgymryd â gweithgarwch economaidd yng Nghymru.
- Bod wedi cofrestru fel aelod ar wefan RESILIENCE[1].
- Ar gael ar gyfer **pob** sesiwn.

## Strwythur y Rhaglen

### Gweithdy MFP 1 – Creu'r Cynllun Gyrfa Cywir i Chi ar gyfer y Dyfodol (Rhithiol, canol mis Ionawr-Chwefror)

Mae'r gweithdy hwn yn cael ei gynnal o bell i grwpiau bach o hyd at 5 o gyfranogwyr. Mae'r gweithdy cyntaf yn cynnwys y canlynol:

- Prawf seicometrig ar-lein a llunio adroddiadau proffilio ymddygiad unigol.
- Dadansoddi nodweddion ymddygiadol.
- Sesiwn gyd-ddysgu 1.5 awr o hyd dan arweiniad Tony Bradshaw, gydag amser personol wedi'i neilltuo i archwilio nodweddion cyfranogwyr.
- Cyfnod myfyrio 3-4 wythnos ar ôl y gweithdy i ddatblygu dealltwriaeth bersonol.

**Gweithdy MFP 2 – Deall y Sgiliau Gyrfa Allweddol sydd eu Hangen i Gyflawni eich Cynllun (Wyneb yn wyneb, 5 Mawrth)**

Mae'r gweithdy hwn yn cael ei gynnal wyneb yn wyneb i grwpiau o hyd at 12 o gyfranogwyr sydd wedi cwblhau MFP1:

- Gweithdy hanner diwrnod wedi'i hwyluso gan Tony Bradshaw, sy'n canolbwyntio ar sgiliau allweddol ar ddechrau gyrfa: gwydnwch personol, rheoli gwrthdaro, meithrin ymddiriedaeth, deallusrwydd emosiynol, arddulliau arwain a chyfathrebu, a mentora.
- Yn ddewisol, mae'n cynnwys offer seicometreg ychwanegol i ddyfnhau dealltwriaeth o wytnwch a rheoli emosiynau.

## Pam mynychu'r gweithdai?

- Dod yn aelod o garfan unigryw o ddarpar arweinwyr y dyfodol yng Nghymru
- Cael cipolwg personol drwy brofion seicometrig a phroffilio ymddygiadol
- Datblygu sgiliau arwain, gwydnwch a chyfathrebu ymarferol
- Dysgu gan Dr Tony Bradshaw, yr hwylusydd arbenigol sydd â phrofiad ar draws y byd academaidd a diwydiant
- Ar gael yn rhad ac am ddim – dim gofynion asesu nac adrodd y tu hwnt i fonitro cydraddoldeb ac adborth
- Cyfle i gynrychioli'r Rhaglen 'Resilience', Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru a phartneriaid fel llysgennad ar gyfer y rhaglen.

## Dyddiadau'r gweithdai

- Sesiwn (Rhithiol – MFP1): Canol mis Ionawr-Chwefror 2026.
- Sesiwn 2 (Wyneb yn wyneb – MFP2): Dydd Iau, 5 Mawrth 2026.

## Cyfleoedd ychwanegol

Mae'r rhaglen hon yn rhan o Raglen 'Resilience' ledled y DU. Bydd y cyfranogwyr yng ngharfan Cymru yn cael cyfle i fynychu sesiynau Cyflymydd Arweinyddiaeth eraill ledled y DU, yn amodol ar deithio ar gyfer cyfarfodydd wyneb yn wyneb. Sgiliau Gwydnwch - Cyflymydd Arweinyddiaeth

## Y broses ymgeisio

Mae'r ffurflen gais ar gael yma. Bydd panel o randdeiliaid arbenigol yn blaenoriaethu'r ceisiadau, gyda'r lleoedd sydd wedi'u hariannu yn cael eu cynnig i'r ymgeiswyr gorau yn gyntaf. Bydd ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael gwybod am gyfleoedd eraill ledled y DU.

**Mae'r Rhaglen Cyflymydd Arweinyddiaeth 'Resilience' yn cael ei threfnu gan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru mewn cydweithrediad â'r Rhaglen 'Resilience', ac yn cael ei hariannu gan Innovate UK.**